

## Cofion a Chyfarchion

- Yr ydym yn codi amryw yn yr ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddïau heddiw eto. Yn Ysbyty Glan Clwyd y mae Gwyneth Rawson (Llanfair) a Megan Evans (Llansannan), mae Gwyn Jones (Peniel) yn parhau i gael gofal yn yr Inffirmari, ac mae Gwenllian Jones (Henllan) wedi cael ei symud i Ysbyty Gymunedol Yr Wyddgrug. Bu Lowri Gwyn Rossington (Llanfair) yn Ysbyty Glan Clwyd am rai dyddiau, ac mae Edi Glynne Jones (Saron) yntau wedi bod yn ôl ac ymlaen yno yn ystod yr wythnos. Anfonwn ein cofion at bob un ohonynt ac at bawb arall sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan weddio y byddant yn cael adferiad iechyd buan iawn ac y byddant yn profi Duw yn ei holl ddaioni yn gwarchod drostynt a'i gariad yn gysur ac yn gymorth iddynt.
- Llongyfarchiadau i Elin a Jonathon Kerry (Saron) ar enedigaeth Leia Ogwen. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig yma, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.

## CD o'r Oedfa

Os oes unrhyw un ohonoch yn methu dod i oedfa ar y Sul, cysylltwch â Mair ac fe allwn ddarparu CD ar eich cyfer – yn wythnosol neu yn achlysurol. Cewch gopi am ddim o'i ddychwelyd er mwyn ei ail-ddefnyddio, neu gopi i'w gadw am £1.

## I ddod

- **BYW A DWEUD** – Diwrnod i'n harfogi a'n hysbrydoli i rannu ein ffydd ag eraill gyda Mike Adams, Chloe Richards a Dai Hankey yn Eglwys Crist, Y Bala dydd Sadwrn, Mawrth 10fed. Croeso i ieuencid 15+ ac oedolion o bob oed. Cost y diwrnod, gan gynnwys cinio ysgafn yng Ngholeg y Bala, fydd £10 (os mewn addysg) neu £15 (os mewn gwaith). Mae'n bosib cofrestru ar-lein trwy fynd i dudalen 'Byw a Dweud' ar wefan souledoutcymru.net, neu cysylltwch â Choleg y Bala (01678 520565).
- **CYMDEITHAS CAPEL SARON** – Noson gyda Wil Tân yng Nghlwb Rygbi Dinbych, nos Sadwrn, Mawrth 24ain. Tocyn £10 yn cynnwys bwyd. Tocynnau ar gael gan aelodau'r capel neu Emyr Rees (01745) 550261.
- **LLANW** – Bydd gŵyl Gristnogol Llanw yn cael ei chynnal yng Nghydweli yn 2018 a hynny rhwng Ebrill 2il – 5ed gyda phrif weithgareddau'r ŵyl yn cael eu cynnal yng Nghanolfan y Dywysoges Gwenllian yng Nghydweli a'r llety yn cael ei ddarparu yn y Carmarthen Bay Holiday Park ychydig filltiroedd i ffwrdd. Ewch i'r wefan [www.llanw.org](http://www.llanw.org) am fwy o fanylion a ffurflen archebu.
- **WORD ALIVE** – Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Ebrill 7fed-12fed. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: [www.wordaliveevent.org](http://www.wordaliveevent.org)



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 11<sup>eg</sup> Chwefror 2018

Darlleniad y Dydd

Galatiaid 6:14-16

(BCND tud.211 / BCN tud.192)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)


'Ti Arglwydd yw fy nghyfran a'm cwpan, ti sy'n diogelu fy rhan.' Gyda'r geiriau yna mae Dafydd yn moli Duw yn Salm 16:5 ac yn mynegi ei obaith yn y presennol a'r dyfodol. Gweddïwn heddiw am eneniad yr Ysbryd i'n galluogi i weld fod hynny'n wir i ninnau hefyd yng Nghrist, gan fod ein hetifeddiaeth yn ddiogel ynddo yn awr ac am byth.

Mae Dydd Mawrth Ynyd rownd y gornel, ac os ydy'ch ceg chi'n grimp am grempog cofiwch fod digonedd o gynhwysion gwahanol yn y siopau i sicrhau y cewch yr union beth sydd at eich dant. O'r siwgr a'r lemon traddodiadol i'r hufen iâ a'r Nutella llawn calorïau, mae'r hyn sy'n gwneud y grempog berffaith yn wahanol o un person i'r llall. Ond siawns fod yn rhaid i rysâit y grempog ei hun aros yr un fath? Tynnwch y blawd neu'r wyau allan o'r gymysgedd, neu ychwanegwch furum, ac yn saff i chi nid crempog fydd o'ch blaen wedyn!

Mae hyn yn ein hatgoffa o neges ganolog y Llythyr at y Galatiaid sy'n cynnwys adnodau darlleniad y dydd. Galwad fawr Paul yw na ddylai Cristnogion symud oddi wrth y newyddion da am Iesu Grist gan mai neges Duw yw hi, neges sy'n datgan mai trwy ffydd yn Iesu yn unig y gall pobl ddod i berthynas iawn gyda Duw. Aiff Paul mor bell a dweud 'Os oes rhywun yn cyhoeddi neges wahanol i'r un wnaethoch chi ei chredu, melltith Duw arno!' (Galatiaid 1:9).

A dyna'r rheswm pam fod Paul yn terfynu trwy roi siars iddo'i hun i sicrhau mai croes Crist yw unig sail ei ymffrost, nid unrhyw beth o'i eiddo ef.

Gwyddai Paul yn iawn mai'r demtasiwn bennaf i Gristnogion oedd cael eu twyllo i ychwanegu at yr Efengyl. Ond na, meddai Paul, os ychwanegwch at yr Efengyl, nid Efengyl mohoni bellach. Nid byw bywyd da, gwybod y Beibl neu berthyn i genedl (neu eglwys!) benodol sy'n cyfrif, ond ydych chi'n ymddiried yn Iesu a'r hyn a wnaeth trwy farw ar y Groes? Os oes gennym wir ffydd ynddo, yna mae'r hyn a enillodd Iesu trwy ei farwolaeth a'i atgyfodiad yn dod yn eiddo i ni. Byddwn yn greadigaeth newydd trwy waith yr Ysbryd Glân, bydd y byd a'i bethau wedi colli'i afael arnom, a ninnau'n byw bywyd newydd i Dduw yn hytrach nac i ni'n hunain. Dyna pam y dywedodd Paul yn gynharach yn Galatiaid 2:20 'Yr wyf wedi fy nghroeshoelio gyda Christ; a mwyach, nid myfi sy'n byw, ond Crist sy'n byw ynof fi. A'r bywyd yr wyf yn awr yn ei fyw yn y cawd, ei fyw trwy ffydd yr wyf, ffydd ym Mab Duw, yr hwn a'm carodd i ac a'i rhoes ei hun i farw tros of fi.' Gweddïwn am gymorth Duw i fyfyrto ar y geiriau hyn, ac am y ffydd fydd yn ein galluogi ninnau fel Paul i ymffrostio yng nghroes ein Ceidwad.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Rhodri

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 11<sup>eg</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwawr Davies a bydd y Parch. Hywel Meredydd yn pregethu.
- Mawrth – 13<sup>eg</sup> ➤ **Cyfarfod Chwiorydd yr Ofalaeth** yn Festri Capel y Waen, Nantglyn am 7.30 pan fydd Rowena Williams, Y Bala yn arddangos gwaith basgedi gwail.
- Mercher – 14<sup>eg</sup> ➤ **Torri Syched y dynion** – seiat am 7.30, lleoliad i'w gadarnhau.  
➤ **Torri Syched y merched** – seiat yn Heulfryn am 7.30.
- Gwener – Sul  
16<sup>eg</sup> – 18<sup>fed</sup> ➤ **Penwythnos Ieuenticid (Bl. 7-11)** yng Ngholeg y Bala. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Os nad ydych eisoes wedi archebu lle, gallwch wneud hynny ar-lein trwy fynd i wefan [colegybala.org/rhaglen-y-coleg](http://colegybala.org/rhaglen-y-coleg). Mwy o wybodaeth gan Gwion.
- Sul nesaf – 18<sup>fed</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 11<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth – 13<sup>eg</sup> ➤ Bydd cyfle am ginio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 18<sup>fed</sup> ➤ Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 11<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 18<sup>fed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00 a chynhelir Ysgol Sul yno am 10.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 11<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf – 18<sup>fed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 11<sup>eg</sup> ➤ Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Llun – 12<sup>fed</sup> ➤ Cymdeithas Llansannan – Cyfle i fynd i Noson o Ddramâu yng Nghapel Bethania, Rhuthun am 7.30. Os ydych angen trafniadaeth neu am rannu car, dewch i faes parcio Capel Coffa Henry Rees erbyn 6.45, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 18<sup>fed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu yn Llansannan am 10.00, ac ar ddechrau'r oedfa, bydd yr eglwys yn gofyn, trwy bleidlais gudd, farn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 11<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Sul nesaf – 18<sup>fed</sup> ➤ Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd.

### Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07814 660291  
Gwion – 📧 [gwion@eglwysibroaled.com](mailto:gwion@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 582644 📞 07849 591163  
Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536  
*Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

### Darlleniad Wythnos Nesaf

Deuteronomium 33:26-29 (BCND tud.196 / BCN tud.179)